# Cyfnod Allweddol 3 Tasgau/Canllaw i Athrawon

Bydd y tasgau'n galluogi'r dysgwyr i gwmpasu'r canlynol:

**Llafaredd**

- ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio
- amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir ... yn eu cyd-destun

**Darllen**

- defnyddio ystod o strategaethau, e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl
- defnyddio'u gwybodaeth am y canlynol:
  - tarddiadau a theuluoedd geiriau
  - cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
  - cynnwys a chyd-destun

  i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan
- canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt
- dod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o ffynonellau gwahanol a'u defnyddio'n ddethol
- defnyddio casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr

**Ysgrifennu**

- dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol
- addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, e.e. dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi
- gwneud cysylltiadau a/neu ymhelaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn llawn â'r pwnc
- wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben

## Tasg 1

Y dysgwyr yn ystyried beth mae pob un o'r delweddau'n ei ddangos iddynt;
Am beth mae'r gerdd, tybed, os ydyn nhw'n gysylltiedig â chynnwys y gerdd:
Dylai'r dysgwyr wneud rhai nodiadau ar gyfer pob un o'r delweddau a'u trafod â'u partner.

## Tasg 2

Torrwch y gerdd yn stribedi/ llinellau unigol
Dylai'r dysgwyr geisio rhoi'r darnau o'r gerdd sydd wedi'u torri at ei gilydd fel bod y gerdd yn gwneud synnwyr.

Rhowch gliwiau i'r dysgwyr am ffurf 'villanelle' fesul un ar wahanol adegau yn ystod yr ymarfer.

• Mae chwe phennill i'r gerdd, gyda phump ohonynt yn dair llinell yr un.
• Mae cwpled sy'n odli ar ddiwedd y gerdd.
• Dwy odl wahanol yn unig sydd yn y gerdd.
• Mae llinell gyntaf a thrydedd linell y pennill cyntaf yn cael eu hailadrodd bob yn ail fel llinell olaf y penillion sy'n dilyn.
• Y pennill olaf yw'r pennill sydd â phedair llinell.
• Edrychwch am batrymau geiriau neu syniadau.

Rhowch gopïau o'r gerdd wreiddiol iddynt gael ei chymharu â'u fersiynau nhw ac ystyried pa mor gywir oedden nhw.

## Tasg 3

Chwaraewch y clip hysbyseb o ddarlleniad 'Do Not Go Gentle'. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod a yw eu hargraffiadau cyntaf o'r gerdd wedi newid ar ôl ei chlywed yn cael ei darllen yn uchel.

## Tasg 4

Dylai'r dysgwyr gwblhau gweithgaredd diemwnt 9 gan edrych ar ba ddelweddau, themâu neu gymalau sy'n arbennig o effeithiol a pham. Gofynnwch iddynt drefnu'r rhain yn ôl eu pwysigrwydd 1-9.

## Tasg 5

Dylai'r dysgwyr drafod beth yw eu hymateb emosiynol i'r gerdd wrth ichi ddarllen drwy bob pennill. (1 = emosiynau gwannaf a 10 = emosiynau cryfaf)

## Tasg 6

Yn eu parau, dylai'r dysgwyr edrych ar y pum pennill sydd ar ôl ac ysgrifennu paragraff byr sy'n esbonio'r hyn y mae pob pennill yn ei ddangos (edrychwch ar baragraff enghreifftiol gyda nhw).

## Tasg 7

Y dysgwyr yn defnyddio tri lliw gwahanol i lenwi'r allwedd a'r anodiadau ar y copi o'r gerdd.

Dylai'r dysgwyr liwio'r allwedd mewn tri lliw gwahanol a chanolbwyntio ar
- Farwolaeth
- Golau
- Y Gorchmynnol

## Tasg 8

Dylai'r dysgwyr lenwi'r tabl ar gyfer Pwynt Tystiolaeth Esboniad er mwyn paratoi at y dasg ddadansoddi.
Efallai y gallai'r dysgwyr drafod y gerdd mewn grwpiau cyn dechrau ar y dasg ysgrifenedig estynedig ffurfiol.